Eisteddfod Talaith a Chadair Powys
RHESTR TESTUNAU



Eisteddfod Talaith a Chadair Powys 2020
Rhosllannerchrugog a'r Cylch

Dathlu 200 mlwyddiant yn Y Stiwt,
Rhosllannerchrugog
GORFFENNAF 15 a 16, 2022

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Pleser o'r mwyaf i mi, fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ydi cyflwyno ein Rhestr testunau gan obeithio y byddwch yn cystadlu yn Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Rhosllannerchrugog a'r Cylch yn 2020. Mae'n fraint gennym groesawu'r Eisteddfod i'r Stiwt yn y Rhos ar achlysur dathlu ei 200 mlwyddiant. Dyma'r tro cyntaf i'r pentref groesawu'r Eisteddfod i'n plith er bod yr Eisteddfod Powys gyntaf un wedi ei chynnal yn Wrecsam. Mae'n debyg mai'r rheswm y cafodd yr Eisteddfod gyntaf ei chynnal yn Wrecsam oedd caredigrwydd Syr Watcyn Williams Wynne o ystâd Wynnstay yn Rhiwabon a wnaeth gynnig nawdd hael ar ei chyfer. Yn wir ei ddisgynyddion sy'n berchen Mynydd y Rhos hyd at heddiw. Mae'r bardd o'r Rhos I.D. Hooson hefyd wedi sôn am afael ystâd Syr Watcyn ar y diwydiant glo a brics lleol a'r modd y bu'n gyfrifol am ffyniant diwydiannol yr ardal.

Fel y gŵyr llawer ohonoch mae Rhosllannerchrugog, pentref mwya' Cymru, wedi dal ei afael ar ei Gymreictod er gwaetha'r ffaith ei fod nepell o'r ffin. Mae'n galonogol gweld bod cymaint o blant a phobl ifanc yr ardal yn mynychu ein hysgolion Cymraeg ac yn dathlu a defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Rydym yn falch o'r cyfle hwn i ail gydio yn ein traddodiad Eisteddfodol gan obeithio y gallwn greu gwaddol ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Edrychwn ymlaen at gynnal Seremoni'r Cyhoeddi yng Nghylch yr Orsedd ar Barc y Ponciau, y tro cyntaf i'r cylch gael ei ddefnyddio ers bron I 60 mlynedd.

Yr ydym fel Pwyllgor Gwaith yn ffyddiog y bydd Eisteddfod Talaith a Chadair Powys 2020 yn denu cystadleuwyr o bob rhan o Gymru. Bydd perfformio yn theatr drawiadol ac eiconig y Stiwt yn brofiad heb ei ail i gystadleuwyr a chaiff y gynulleidfa'r wefr o wrando a gwylio hefyd. Peidiwch â cholli'r cyfle! Dewch felly yn llu i bentref Rhosllannerchrugog yng Ngorffennaf 2020 a gallaf eich sicrhau bydd croeso cynnes i chi.

Aled Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

A WORD FROM THE CHAIRMAN

It gives me great pleasure as the Chair of our Local Committee to present our List of Competitions. We really hope that you will compete in the Powys Eisteddfod Rhosllannerchrugog and District 2020.

We are very pleased to be welcoming the Eisteddfod to the Stiwt in Rhos as it celebrates its 200th anniversary. This is the first time that our village has hosted the Eisteddfod although the first Eisteddfod was held nearby in Wrexham. This came as a surprise to many of us locally and it would appear that the reason for this was the generous sponsorship of Sir Watcyn Williams Wynne of the Wynnstay Estate of Ruabon. This Estate still owns the moorlands above Rhos and our most famous local poet ID Hooson often spoke of the hold that the Wynne family had over the local coal and brick industry which was responsible for the economic growth of the area in the 19th century. It is fitting therefore that the Eisteddfod returns in 2020.

As most of you are aware Rhosllannerchrugog is often referred to as the largest village in Wales and the village has retained its Welsh speaking identity despite being so close to the border. We are proud of the fact that so many of our children and young people attend our Welsh language schools locally and continue to use the language in their daily lives. We also welcome this opportunity to re-connect with the Eisteddfod tradition in the hope that we will create a legacy for the next generation. We look forward to holding the proclamation ceremony at the Gorsedd Circle on Parc Y Ponciau which will be the first time that the circle has been used in almost 60 years.

We are confident as a local committee that the 2020 Eisteddfod Powys will attract competitors from all over Wales. The opportunity to perform in our impressive and iconic theatre at the Stiwt will also be an experience to remember. The Eisteddfod I'm sure, will also provide the audience with great memories. Make sure you don't miss out! So come along to Rhosllannerchrugog in July 2020 – you will, without doubt, receive a very warm welcome.

Aled Roberts, Chair of the Local Committee

Cân y Rhos

Dan lethre'r llannerch rugog
  Ymhlith y llwch a'r baw
Fe ddaeth ein tade ffyddiog
  Pob un â'i big a'i raw.
Mewn t'wyllwch fel y fagddu
  Fe slafiwyd ddydd a nos
I godi'r glo i g'nesu
  Cartrefi clyd y Rhos.
A'u chwys a'u gwaed
A'r gwres a gaed
O ffrwydriad mawr Nôt Ffo
  A'n lluniodd ni,
  A'n hunodd ni
Yn bobol Rhos y Glo.

Er gwaetha'r holl ofidie,
  A thlodi'r dyddie prudd,
Fe fu ein mame hwythe
  Yn siriol nos a dydd.
Ac yma ar bob aelwyd
  Yng ngwres a gole'r fflam
Fe ganwyd ac fe dystiwyd
  Am gariad tad a mam,
A'u gwên a'u cân,
A'r dyfroedd glân
O ffynnon fawr Nôt Ffo
  A'n lluniodd ni,
  A'n hunodd ni,
Yn bobol Rhos y Glo.

Am fod y fagddu eto
  Yn bygwth ar bob llaw
Rhaid slafio a rhaid tystio
  Er mwyn yr oes a ddaw.
Rhaid bwydo'r tân a'i fflame
  I losgi ddydd a nos;
Rhaid cadw'r gân a'i geirie
  Yn loyw yn y Rhos.
Rhaid bwydo'r tân.
Rhaid cadw'r gân
Yn loyw ddydd a nos,
  Er mwyn i'n plant
  A phlant ein plant
Gael tyfu'n bobol Rhos.

Gwynne Williams

CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Sefydlwyd y Gymrodoriaeth yn 1913 dan lywyddiaeth Penfro 'yn cael ei gynorthwyo gan Cadfan a lliaws beirdd, llenorion a cherddorion Powys' gyda'r diben o sicrhau cydweithrediad cyffredinol yn y Dalaith i gynnal Eisteddfod Flynyddol ac i ddyrchafu safon yr eisteddfodau yn ei thestunau a'i chynhyrchion.

EISTEDDFODAU O FEWN Y DALAITH: Mae'r Gymrodoriaeth erbyn hyn yn rhoi cymorth ariannol i eisteddfodau annibynnol a gynhelir yn rheolaidd o fewn y Dalaith. Dylai'r ceisiadau, ynghyd â'r fantolen ariannol wedi'i archwilio, a Rhaglen yr Eisteddfod, fod yn llaw'r Trysorydd yn ddi-ffael erbyn y dydd olaf o Ragfyr.

EISTEDDFODAU'R DYFODOL: Cynhelir Eisteddfod 2019 yn Nyffryn Banw, a bydd Eisteddfod 2020 yn Rhosllannerchrugog, a bydd yn Eisteddfod Dathlu 200 Mlwyddiant yr Eisteddfod Powys gyntaf a gynhaliwyd yn Wrecsam yn 1820. Os oes ardal ag awydd gwahodd Eisteddfod 2021 i'r ardal, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Mae'r Gymrodoriaeth wedi cofrestru fel elusen, fel y gall pwyllgorau Ileol fanteisio trwy wneud ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth John a Rhys James Pantyfedwen. Cefnogir Eisteddfodau Powys yn flynyddol gan yr Ymddiriedolaeth hon.

AELODAU: Mae aelodaeth y Gymrodoriaeth yn agored i bob Eisteddfodwr a charedigion llên, awen a cherdd ac nid yw'r tanysgrifiad ond £20 am oes. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb a gâr ein diwylliant i ymaelodi. Anfonwch heddiw at y Cofiadur:

Y Parch. Edwin O. Hughes, Gwytheyrn, Pennant, Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH. Rhif Ffôn : 01650 521203

PWYSIG : Nid yw'r Gymrodoriaeth yn derbyn rhagor o Gwpanau na Thlysau fel gwobrau.

Cwpanau sydd i'w dal am flwyddyn i fynd yn ôl i Mrs Laura Richards, Gwenyndy, Y Foel, Y Trallwm, Powys (Rhif ffôn : 01938 820142) o leiaf fis cyn yr Eisteddfod.

Gwrtheyrn (Cofiadur)

CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

SWYDDOGION 2019

Llywydd: Mr D. Glyn Williams
Cadeirydd: Mr T I Morris
Is-Gadeirydd: Mr John Price
Trysorydd: D. Glyn Williams, Llandudno

SWYDDOGION YR ORSEDD

Y Derwydd Gweinyddol:	Tom Erfyl
Dirprwy Dderwydd Gweinyddol:	Hywel Hefin
Cyn-Dderwyddon Gweinyddol:	Emyr ap Erddan
	Talog
	Hedd Bleddyn
	Marlis Ogwen
Cofiadur:	Gwrtheyrn
Arwyddfardd:	Meirion o Fôn
Dirprwy Arwyddfardd:	Hywel Hefin
Ceidwad y Cledd:	Glandon
Dirprwy Geidwad y Cledd:	Gwernfab
Telynores:	Telynores Powys
Dirprwy Delynores:	Bethan Clywedog
Cornydd:	Garwyn
Dirprwy Gornydd:	Philip ap Islwyn
Trefnydd Cerdd:	Tegwyn
Meistresi'r Gwisgoedd:	Marian o Fawddwy
	Eirian Mai
	Beryl o Gefnllys
	Marged Feddyg
Banerwr:	Dafydd Henlle
Dirprwy Fanerwr:	Rhiwarth
Arolygwr Llwyfan a Seremonïau:	Edryd o Fethel
Is-Arolygwr Llwyfan a Seremonïau	Guto Llwyd
Swyddog Cwpanau a Thlysau	Lowri Cadfan

CEIDWAID Y PYRTH, CEIDWAID Y MAEN LLOG, DERWYDDON, BEIRDD OFYDDION

Gwahoddir yn galonnog i bawb ym Mhowys a gâr Lên, Awen a Chân i ymaelodi â'r Gymrodoriaeth. Derbynnir enwau'r cyfryw gan y Cofiadur: Gwrtheyrn (Cofiadur) - Gwytheyrn, Pennant, Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH. Tâl am oes - £20

Amodau Cyffredinol

1. Dylid anfon pob gohebiaeth i'r Ysgrifennydd Cyffredinol (oni nodir yn wahanol). Os am dderbyn gwybodaeth, dylid amgáu amlen â stamp arni.

2. Bydd gan y Pwyllgor hawl i benodi beirniaid yn lle rhai sy'n absennol trwy amgylchiadau anorfod. Bydd gan y Pwyllgor hawl hefyd i ddewis beirniaid ychwanegol.

3. Ni thraddodir ond braslun o'r feirniadaeth o'r llwyfan ond gall cystadleuydd gael copi o sylwadau'r beirniad ar ei waith.

4. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod.

5. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod, ond gellir anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Bydd dyfarniad y Pwyllgor yn derfynol ar bob mater.

6. **Rhaid i'r ymgeiswyr ar bob cystadleuaeth llwyfan, lle y nodir oedran, fod yn y flwyddyn ysgol briodol ar y 1af Medi 2021**

7. Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn bresennol ac ymddangos pan elwir eu henwau yn y Rhagbrofion a'r Cystadlaethau Terfynol neu atelir hwy rhag cystadlu.

8. Canlyniadau'r rhagbrofion i gael eu cyhoeddi ar safle'r Eisteddfod yn unig.

9. Rhoddir manylion am amser a lleoliad y rhagbrofion yn Rhaglen y Dydd.

10. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am golled neu ddamwain o unrhyw fath ar safle'r Eisteddfod.

11. Ni ystyrir unrhyw gynnyrch a wobrwywyd o'r blaen.

12. Mae'r holl gystadlaethau i'w cynnal dan yr Amodau Cyffredinol hyn ynghyd ag Amodau Arbennig yr Adran y mae'r gystadleuaeth yn perthyn iddi.

13. Dylid anfon enwau'r holl ymgeiswyr yn y cystadlaethau llwyfan at Ysgrifenyddion Y Pwyllgorau **(Gweler Amodau Arbennig y Pwyllgorau)**

CWPANAU A GWOBRAU

Rhoddir enwau Rhoddwyr Gwobrau Ariannol a Chwpanau yn Rhaglen y Dydd. Cydnabyddir pob cyfraniad ariannol **dros £25** tuag at yr Eisteddfod wrth enwau'r Rhoddwyr yn Rhaglen y Dydd.

SWYDDOGION YR IS – BWYLLGORAU
OFFICIALS OF THE SUB - COMMITTEES

PWYLLGOR YR ORSEDD/Pwyllgor Gwaith

Cadeirydd: Aled Rhys Roberts

Is-Gadeirydd / Vice-chair: Aled Lewis Evans

Ysgrifennydd / Secretary: Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL 01978 846151 ebost: geraint.w.jones@btinternet.com

Trysorydd: Peter Jones, Cae Derwen, Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EJ

PWYLLGOR LLÊN A LLEFARU / LITERARY & ELOCUTION

Cadeirydd: Aled Lewis Evans

Ysgrifennydd / Secretary: **I dderbyn gwaith drwy'r post**: Tracy Jaques, 41, Weston Drive, Wrecsam, LL11 2DE

I dderbyn gwaith ar ebost: aledlewisevans@yahoo.co.uk

PWYLLGOR CERDD, CERDD DANT, CANU GWERIN
MUSIC, CERDD DANT, FOLK SINGING

Cadeirydd: Llinos Ann Roberts

Ysgrifennydd: Heulwen Williams

Ysgrifennydd Cerdd Dant a Gwerin: Marian Lloyd Jones

DAWNSIO / DANCING
Ysgrifennyddion / Secretaries : Marc Caldecott, Lowri Jarvis

PWYLLGOR Y DYSGWYR / LEARNERS
Cadeirydd / Chairman: Enfys Thomas
Ysgrifennydd/Secretary: Emma Burton

PWYLLGOR CELF A CHREFFT / ART & CRAFTS
Cadeirydd / Chairman: Siwan Jones
Is-Gadeirydd/Vice-Chair: Glenys Harris
Ysgrifennydd: Geraint W Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam, LL14 1EL

PWYLLGOR MAES a THREFN / VENUE & ORGANISATION
Cadeirydd / Chairman: Geraint Wyn Jones 01978 846151 07707752901

BEIRNIAID / ADJUDICATORS

BARDDONIAETH: Eurig Salisbury

RHYDDIAITH: Linda'r Hafod

LLEFARU: Linda'r Hafod, Elen Gwenllian

DYSGWYR: Zena Thomas, Frances Jones (Llwyfan), Eirian Conlon, Lisa Jên Davies, Mari Tudor, Enfys Thomas (Llên)

CERDDORIAETH: Brian Hughes, Ann Atkinson, Steffan Prys
OFFERYNNOL: Tim Heeley
CERDD DANT: Gwenan Gibbard

CANU GWERIN: Gwenan Gibbard

DAWNS: Gwerin: Prydwen Elfed Owens**, Disgo/creadigol:**Diana Francis Hughes & Lowri Hughes

CELF A CHREFFT

COGINIO: Margaret Jones

CREFFTAU: i'w gadarnhau

FFOTOGRAFFIAETH: Geraint Jones

TREFNU BLODAU: Evelyn Seville

CYFEILYDDION: Glian Llwyd, Sioned Williams
TELYNORES: Alecs Peate

LLÊN A LLEFARU

BARDDONIAETH

1. **Cystadleuaeth y Gadair**: Cerdd gaeth neu rydd ar y testun **Gobaith** heb fod dros 150 o linellau.

Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150.

2. Cywydd i ddathlu dau ganmlwyddiant Eisteddfod Powys.
Gwobr: £40

3. Englyn: Cyfaill
Gwobr: £40(Rhodd gan Mrs. Pam Owen a'r teulu er cof am Trefor Owen, Y Trallwng)

4. Englyn ysgafn: Eisteddfota
Gwobr: £30

5. Telyneg: Gwanwyn
Gwobr: £30

6. Soned: Cartref
Gwobr £30 (£20 o Wobr Goffa Llawenog(Henry Hughes)

7. Limrig: "Pan es i ar daith y bws lleuad..."
Gwobr: £30

8. 3 Thriban i Achlusuron arbennig.
Gwobr: £30 (£10 o Wobr Goffa Ifor Llefenni)

9. Emyn: Agored.
Gwobr: £30

10. Cerdd ysgafn: Y Sŵ
Gwobr £30

RHYDDIAITH

11. **Cystadleuaeth y Goron**: Cyfrol o waith creadigol ar thema gyfoes Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £150

12. Stori Fer: Cyfaddawd.
Gwobr £30 (£25 o Wobr Goffa D Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

13. Astudiaeth o dafodiaith unigryw.
Gwobr: £30

14. Portread o gymeriad lleol o unrhyw ardal.
Gwobr: £30 (£25 o Wobr Goffa Dr D Tecwyn Lloyd gan Gôr Glyndwr)

15. Casgliad wedi ei seilio ar Saith Rhyfeddod Cymru.
Gwobr: £30 (£15 o Wobr Goffa William Jones, Dolhywel, Llangadfan)

16. Ysgrif: Atgofion.
Gwobr:£30 (£15 o Wobr Goffa Ifor Llefenni)

ADRAN IEUENCTID
17. Dan 25: Casgliad o waith gwreiddiol.
Gwobr: Tlws a £75

Barddoniaeth
18. Barddoniaeth 10 -11: Penderfyniad
Gwobr £30 i'w rannu.

19. Blwyddyn 7- 9: cerdd yn codi o thema yn yr ysgol.
Gwobr: £20 i'w rannu.

20. Blwyddyn 5 - 6: cerdd yn codi o thema yn yr ysgol.
Gwobr: £20 i'w rannu.

21. Blwyddyn 4 ac iau: cerdd yn codi o thema yn yr ysgol.
Gwobr: £20 i'w rannu.

Rhyddiaith

22. Blwyddyn 10-11 Adolygiad o lyfr, ffilm neu ddrama.
Gwobr: £30 i'w rannu

23. Blwyddyn 7-9: Darn o waith yn codi o thema yn yr ysgol
Gwobr: £30 i'w rannu

24. Blwyddyn 5-6: Darn o waith yn codi o thema yn yr ysgol.

25. Blwyddyn 4 ac iau: Dathlu.
Gwobr: £20 i'w rannu.

Amodau Arbennig Adran Llenyddiaeth

1. Rhaid i bob ymgeisydd, wrth anfon y cyfansoddiad, gynnwys enw priodol, cyfeiriad a rhif y gystadleuaeth dan sêl mewn amlen â'i ffugenw a rhif y gystadleuaeth ar y blaen.
2. Ni dderbynnir unrhyw waith a wobrwywyd o'r blaen.
3. Atelir y wobr ariannol yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Tlysau oni fydd y buddugol neu ei g/chynrychiolydd yn bresennol.
4. Yr holl gyfansoddiadau i'w teipio neu eu hysgrifennu ar un ochr y ddalen yn unig.
5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn yr adran Llên yn eiddo Cymrodoriaeth Cadair Powys yn unig am dri mis o ddyddiad yr Eisteddfod.
6. Rhaid i'r cyfansoddiadau ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru erbyn **Mai 1af 2022.**
7. Dychwelir y cyfansoddiadau anfuddugol i'r ymgeiswyr sy'n anfon amdanynt i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **Gorffennaf 1af 2022** os ceir ffugenw, rhif ac enw'r gystadleuaeth gyda thâl cludiant post.
8. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.
9. Cynhelir Pabell Lên yn ystod yr Eisteddfod i drafod gwaith y buddugwyr yn y prif gystadlaethau llenyddol.
10. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod.

LLEFARU

26. Blwyddyn 2 ac iau: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £6, £4, £3.

27. Blwyddyn 3 a 4: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

28. Blwyddyn 5 a 6: Unrhyw gerdd gan Gwynne Williams (gan gynnwys ei addasiadau o waith Roald Dahl i'r Gymraeg) NEU hunanddewisiad
Gwobrau: £10, £8, £6 (£5 o wobr Goffa Pat O'Neill)

29. Blwyddyn 7-9 : Unrhyw gerdd gan I.D Hooson, neu hunan-ddewisiad.
Gwobrau: £12, £10, £8.

30. Dan 19 oed : Unrhyw gerdd gan Caryl Parry Jones neu hunan-ddewisiad.
Gwobrau: £30, £20, £15

31. Dan 25 oed : Unrhyw gerdd gan Bryan Martin Davies neu hunan-ddewisiad.
Gwobrau: £30, £20, £15

32. Monolog i barhau am 5 munud. Copi o'r fonolog i'w chyflwyno i'r beirniad ymlaen llaw.
Gwobrau: £30, £20, £15.

33. Prif gystadleuaeth Lefaru : Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 6 munud.
Gwobrau: £60, £40, £30

34. Grwp Llefaru Ysgolion Cynradd. Hunan-ddewisiad.
Gwobrau: £30, £20, £10

35. Grwp Llefaru Ysgolion Uwchradd. Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £40, £30, £20

36. Grwp Llefaru Agored. Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £60, £40, £30 (£30 o Wobr Goffa Llawenog (Henry Hughes))

ADRAN Y DYSGWYR

37. Tlws y Dysgwyr: Agored i ddysgwyr 16 oed a throsodd
3 darn o waith gwreiddiol mewn ffurfiau gwahanol e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad (o lyfr/CD/rhaglen teledu), blog ar y thema **DATHLU** neu **thema o ddewis y cystadleuydd**.
hefyd
Sgwrs naturiol rhwng y dysgwr â siaradwr Cymraeg rhugl wedi'i recordio. Dim mwy na 5 munud. Y dysgwr i arwain y sgwrs.
Gwahoddir 3 cystadleuydd i gyfweliad gyda'r beirniaid ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
Tlws a £60

Cystadlaethau 38 – 41 Beirniad: Eirian Conlon

38. Sgwrs rhwng dau berson mewn ciw. Lefel Mynediad (oddeutu 100 o eiriau)
Gwobrau £20, £15, £10

39. Fy hoff ran o Gymru (oddeutu 100 o eiriau) (Lefel Sylfaen)
Gwobrau £20, £15, £10

40. Fy swydd gyntaf (oddeutu 150 o eiriau) – Lefel Canolradd
Gwobrau £20, £15, £10

41. Gwaith grŵp neu unigol: Blog fideo: "Croeso i'r dosbarth" hyd at 3 munud o hyd. Lefel: Agored.
Gwobrau £20, £15, £10

YSGOLION CYNRADD - Beirniaid Mari Tudor / Lisa Jên Davies

42. Blwyddyn 3 a 4
Proffil personol – Fi Fy Hun
£10, £8, £6

43. Blwyddyn 5 a 6
Portread o berson enwog o ddewis yr unigolyn
£12, £10, £8

YSGOLION UWCHRADD A CHOLEGAU – Beirniad Enfys Thomas

44. Blwyddyn 7
BLOG ar y thema **GWYLIAU**
Gwobrau £12, £10, £8

45. Blwyddyn 8 BLOG ar y thema GWYLIAU
Gwobrau £12, £10, £8

46. Blwyddyn 9 Darn o waith ar unrhyw furf ar y thema **Ffôn Symudol**
Gwobrau £12, £10, £8

47. Blwyddyn 12 ac 13 Adolygiad o stori fer neu gerdd yn yr iaith Gymraeg sydd yn trafod **thema perthynas.**
Gwobrau £15, £12, £10

Ysgolion – Cystadlaethau Llwyfan
Llefaru – Beirniad Zena Thomas

48. Blwyddyn 1 a 2 **Dwy ran i'r corff**
Elen Pengwern

Cyfrol: SGRAM (t.12)
Cyhoeddwyr AWEN/CBAC

Gwobrau: £5, £3, £2

49. Blwyddyn 3 a 4 **Fy nheulu a fi, Hedd ap Emlyn**
Cyfrol: SGRAM (t.14)
Cyhoeddwyr AWEN/CBAC

Gwobrau: £6, £4, £3

50. Blwyddyn 5 a 6 **Sbwriel, Zac Davies**
Cyfrol: Poeth (t.80) Y Lolfa

Gwobrau: £8, £6, £5

Oedolion - Cystadlaethau Llwyfan: Agored Cerdd a llefaru

51. Côr Dysgwyr Beirniad: Beirniad Cerdd
Rhwng 10 - 40 mewn nifer - unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi, hyd at 5 munud mewn unrhyw arddull
Gwobrau
Beirniad Llefaru Oedolion - Dysgwyr: Frances Jones
Gwobrau: £40, £30, £20

52. Llefaru unigol i Oedolion
'Pellter' Rosa Hunt (enillydd cystadleuaeth y gadair i ddysgwyr Caerdydd 2018)
Cyfrol: Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018 **neu** hunan ddewisiad
Gwobrau: £30, £25, £20

53. Grwp Llefaru
'Y Gymru Newydd' Robin Llwyd ab Owain **neu** hunan ddewisiad
Cyfrol: Poeth (t 126) Cyhoeddwr: Y Lolfa
Gwobrau: £40, £30, £20

54. Sgets
'Dathliad' hyd at 5 munud
Gwobrau: £40, £30, £20

ADRAN CERDD, CERDD DANT A CANU GWERIN LLEISIOL

55. Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £5, £3, £2

56.Unawd Blwyddyn 3 - 4: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £6, £4, £3

57. Unawd Blwyddyn 5 - 6: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

58. Deuawd Blwyddyn 6 ac iau
Gwobrau: £10, £8, £6

59. Parti Unsain i Oedran Ysgolion Cynradd (dim mwy na 10 mewn nifer): Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £30, £20, £10

60. Côr Oedran Ysgolion Cynradd: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: *Tarian WEA Gogledd Cymru* a £40, £25, £20

61. Unawd Blwyddyn 7 - 9 : Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £12, £10, £8

62. Unawd Blwyddyn 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

63.Deuawd o dan 19 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £16, £12

64. Unawd 19 - 25 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: Cwpan a £30, £20, £15 (£50 o *Wobr Goffa Gwilym Clwyd)*

65. Unawd allan o Sioe Gerdd o dan 19 oed : Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

66. Canu Emyn dros 50 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £30, £25, £15

67. Unawd Gymraeg
Can o waith cyfansoddwr Cymraeg: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: Cwpan Coffa Rhys Davies (i'w ddal am flwyddyn) a £60, £40, £30

68.Her Unawd : Oratorio, Opera neu Leider
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: Cwpan Cyngor Tref Croesoswallt (i'w ddal am flwyddyn) a £150, £80, £50, £20

69. Ensemble lleisiol: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £30, £25, £20

CORAWL / CHORAL

70.Côr ysgolion/ Ieuenctid dan 25 oed : Hunan-ddewisiad
Gwobrau: *Cwpan Sefydliad y Merched Corwen* (i'w ddal am flwyddyn) a £175, £100, £75

71. Côr Merched
Dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau: £300, £250, £150

72.Côr Meibion
Dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau: £300, £250, £150

73. Côr Cymysg
Dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau: £300, £250, £150

74.Côr yr Wyl
I'w benderfynu allan o enillwyr y 4 cystadleuaeth gorawl uchod. Gwobr £200

OFFERYNNOL / INSTRUMENTAL

75. Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

76. Unawd Offerynnol (ac eithrio piano) Blwyddyn 6 ac iau: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

77. Unawd Offerynnol Blwyddyn 7 - 9 (unrhyw offeryn): Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £12, £10, £8

78. Unawd Offerynnol dan 19 oed (unrhyw offeryn): Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

79. Unawd Offerynnol Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: *Cwpan Cymdeithas Amaethwyr y Wynnstay* a £40, £30, £20

80. Grŵp Offerynnol Oedran Ysgolion Cynradd: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: *Tarian Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn* a £15, £10, £8

81. Grŵp Offerynnol Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: Tarian Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn a £20, £15, £10

CERDD DANT

82. Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £5, £3, £2

83. Unawd Blwyddyn 3 - 4: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £6, £4, £3

84. Unawd Blwyddyn 5 - 6: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

85. Parti Oedran Cynradd: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1: *Cwpan Coffa Ted Richards* (i'w ddal am flwyddyn) a £30; 2: £20; 3: £10.

86.Unawd Blwyddyn 7-9: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £12, £10, £8

87. Unawd Blwyddyn10 ac o dan 19 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

88. Unawd Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £45, £25, £15

89. Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £60, £40, £30

90. Côr neu Barti Cerdd Dant Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £100, £50, £30

CANU GWERIN / FOLK SINGING

91. Unawd Oedran Cynradd: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

92. Unawd o dan 19 oed: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

93. Unawd Agored: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £45, £25, £15

94. Côr/Parti Alawon Gwerin Agored:

Dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau: £100, £50, £30

95. Parti Plygain : Carol Plygain: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £100, £50, £30

Amodau Arbennig yr Adran Gerdd

1. Anogir pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ac eithrio'r Her Unawd.
2. Rhaid defnyddio cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth ac eithrio yn y cystadlaethau offerynnol, corau, partïon a sioe gerdd.
3. Y cystadleuwyr yn y cystadlaethau Hunan Ddewisiad i anfon **2 gopi** o'r darnau ar gyfer y beirniaid a'r cyfeilydd i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd erbyn **Mehefin 1af 2022.**
4. Penderfynir trefn ymddangos y corau trwy dugel.
5. Bydd £75 i bob Côr anfuddugol sydd wedi teithio dros 50 milltir i'r Eisteddfod.
6. **Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod**

Sylwer: Mae'n anghyfreithlon llungopïo copïau heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Special Regulations – Music Section

1. Competitors are all urged to use Welsh where possible with the exception of the Her Unawd / Challenge Solo.
2. The official Eisteddfod accompanists must be used in all competitions except in the instrumental, choral, parties and musical show competitions.
3. Competitors must send **2 copies** of own-choice test pieces for adjudicators and accompanists to the Music Committee Secretary by **1st June 2022.**
4. The order in which choirs perform will be decided by lot.
5. £75 will be given to unsuccessful choirs who have travelled over 50 miles to the Eisteddfod.
6. **See also General Regulations**.

Note: It must be noted that the photocopying of copyright material without permission is illegal.

Amodau Arbennig yr Adran Cerdd Dant

i) Rhaid i bob ymgeisydd gydymffurfio a rheolau'r Gymdeithas Gerdd Dant.

ii) Rhaid anfon copïau o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a'r cyweirnod i'r Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant erbyn **Mehefin 1af 2022**

iii) Rhaid i bob ymgeisydd dderbyn gwasanaeth y Delynores Swyddogol.

iv) Ni chaniateir arweinydd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa i unrhyw eitem.

v) **Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol**.

Amodau Arbennig yr Adran Canu Gwerin

i) Rhaid i bob ymgeisydd anfon copi o'r alaw werin i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd Dant erbyn **Mehefin 1af 2022**

ii) Rhaid i bob cân gael ei chanu'n ddigyfeiliant

DAWNSIO GWERIN, STEPIO, CREADIGOL a CHYFOES
FOLK, STEP, CREATIVE and MODERN DANCING

Dawnsio Gwerin/Stepio

96. Dawns Werin i Grŵp o dan 12 oed - Hunan ddewisiad
Gwobrau: £30; £20; £10

97. Dawns Werin i grŵp Agored - Hunan ddewisiad.
Gwobrau: £50; £40; £30

98. Dawns Stepio Unigol Agored - Hunan ddewisiad
Gwobrau: £40; £30; £20

99. Dawns stepio i grŵp Agored - (4 neu fwy mewn nifer) - Hunan ddewisiad
Gwobrau: £50; £40; £30

Dawns Creadigol/Aml Gyfrwng - Beirniad - Diana Francis Hughes & Lowri Hughes (Amlwch, Ynys Môn)

100. Dawns Greadigol Unigol Agored (4munud) - Hunan ddewisiad
Gwobrau: £40; £30; £20

101. Dawns Greadigol i grŵp agored (4 munud) - Hunan ddewisiad. (4-25 mewn nifer)
Gwobrau: £50; £40; £30

102. Dawns Aml Gyfrwng Agored (4 munud) - Thema: Dathlu (4-25 mewn nifer)
Gwobrau: £50; £40; £30

Dawns Disgo/Hip-Hop/Stryd - Beirniad - Diana Francis Hughes & Lowri Hughes, Amlwch - Ynys Môn)

103. Dawns Unigol o dan 12 oed (2 funud)
Gwobrau: £10; £8; £6

104. Dawns grŵp o dan 12 oed (3 munud) (4-25 mewn nifer)
Gwobrau: £30; £20; £10

105. Dawns Unigol agored (2 funud)
Gwobrau: £40; £30; £20

106. Dawns grŵp agored (3 munud) (4-25 mewn nifer)
Gwobrau: £50; £40; £30

107. Dawns i bâr agored (3 munud)
Gwobrau: £40; £30; £20

Rheolau Dawnsio Creadigol/Aml-Gyfrwng/Hip Hop/Stryd/ Disgo.

1. Cerddoriaeth Cymraeg neu heb eiriau yn unig
2. Ni chaniateir propiau mewn unrhyw categori heblaw am y Ddawns Aml-Gyfrwng i grŵp.
3. Rhaid creu synopsis fer ar gyfer y beirniad ar gyfer y cystadleuaeth Dawns Creadigol ac Aml-Gyfrwng.
4. Cyfrifoldeb y perfformwyr a'i hyfforddwyr ei bod yn cynhesu ac ymestyn y perfformwyr cyn iddynt berfformio.

ADRAN CELF A CHREFFT
Arts and Crafts Section

Cyflwynir nifer o gwpanau yn yr adran hon yn ogystal â **Thlws yr Arddangosfa** i'r eitem orau yn yr Adran Celf a Chrefft.

A number of cups will be awarded in this section in addition to **The Exhibition Trophy** for the best exhibit in the Arts and Crafts Section.

Thema'r cystadlaethau canlynol (oni bai ei fod yn dweud fel arall) yw:

"AMSER I…"

The theme of the following competitions is (unless otherwise stated):

"TIME TO…"

Wrth gystadlu nodwch sut mae'ch gwaith yn berthnasol i'r thema.

Note how your submission relates to the theme when entering.

*Ni chaniateir i unigolyn gystadlu fwy nag unwaith yn yr un gystadleuaeth.

**An individual cannot compete more than once within the same competition.*

CELF a FFOTOGRAFFIAETH / *ART & PHOTOGRAPHY*

Beirniad / *Adjudicator*

Geraint Jones

Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng o dan y thema e.e. Arlunio, argraffu, graffeg, brodwaith, modelau a.y.y.b (o dan y thema). Dylai'r gwaith gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio (os yw'n 2D).

2D or 3D work in any medium on the theme *e. g. painting, drawing, printing, graphics, embroidery, modelling etc. (under the theme). The work should be mounted on card or framed (if 2D).*

108. Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

109. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

110. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Ffotograffiaeth (o dan y thema).

1. Llun unigol. Dylid y gwaith gael ei osod ar gerdyn dim mwy na 50cm x 40cm.
2. Casgliad o luniau, tri neu bedwar mewn nifer. Dylid gosod y gwaith ar gerdyn dim mwy na 50cm x 40cm.

Bydd Cwpan coffa Brian Jones (i'w ddal am flwyddyn) yn cael ei gyflwyno i'r gwaith gorau yn yr adran Ffotograffiaeth.

Photography *(on the theme).*

1. *A single photograph. The work should be mounted on card no larger than* 50cm x 40cm.
2. *A collection of photographs, three or four in number. The work should be mounted on card no larger than* 50cm x 40cm.

The Brian Jones Memorial Cup (to be held for one year) will be awarded to the best exhibit.

111. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

112. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

113. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Llun ar platform cyfrwng cymdeithasol 'Instagram', sy'n dangos diwylliant modern yr ardal ar ei orau. Postiwch eich llun gyda'r hashtag #EisteddfodPowys2020 . Sicrhewch bod eich proffil yn gyhoeddus ac eich bod yn cynnwys enw eich cyfrif ar y ffurflen gofrestru. Canieteir i chi ddefnyddio hidlyddion (filters) o fewn yr app.

***A photograph on the social media platform 'Instagram'**, that shows the modern culture of the area at its best. Post your picture using the hashtag #EisteddfodPowys2020 . Please make sure that your profile is public and that you include your account name on the registration form. Using filters within the app is permitted.*

114. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

115. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

CELFYDDYD CARTREF/ HOME CREATIVITY

Beirniad/ Adudicator: Evelyn Saville, Margaret Jones

Gosod Blodau

Bydd Cwpan David Peate (i'w ddal am flwyddyn) yn cael ei gyflwyno i'r gwaith gorau yn yr adran gosod blodau.

Flower Arranging

The David Peate Cup (to be held for one year) will be awarded to the best exhibit in the Flower Arranging section.

116. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years (*Dim mwy na*/ No bigger than 60cm x 60cm)*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*
117. Oedran 11oed – 18oed/ *years (*Dim mwy na*/ No bigger than 60cm x 60cm)*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*
118. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age (*Dim mwy na/ *No more than 40cm x 40cm)*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Coginio/ Cookery

Bydd tlws yn cael ei gyflwyno i'r eitem orau yn yr Adran Goginio.

Trophy awarded to the best item in the Cookery section.

119. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

Cacen i ddathlu 200 mlwyddiant yr eisteddfod eleni.
A cake to celebrate the eisteddfod's 200 year anniversary this year.

120. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

Bwydydd Crwst i ddathlu cynhyrchion lleol. Un eitem sawrys ac un eitem melys. Rhaid cynnwys rhestr o'r cynhwysion lleol a ddefnyddir yn y bwyd.
Pastries to celebrate local produce. One savoury item and one sweet item. A list of the local ingredients used in the food must be provided.

121. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Cacennau bach i ddathlu penblwydd yr eisteddfod yn 200 mlwydd oed. Isafswm o 6 cacen.
Cupcakes to celebrate the eisteddfod's 200th birthday. Minimum of 6 cupcakes.

CREFFT / CRAFT

Beirniad/ Adjudicator

Eitem i'r ardd. Gwaith mewn unrhyw gyfrwng e.e. coed, metal, gwydr, plastig, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.
Item for the garden. Work in any medium e.g. wood, metal, glass, plastic, re-cycled materials etc.

122. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

123. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

124. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Eitem i'r cartref. Gwaith mewn unrhyw gyfrwng e.e. coed, metal, gwydr, plastig, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.

Item for the home. Work in any medium e.g. wood, metal, glass, plastic, re-cycled materials etc.

125. Oedran Dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

126. Oedran 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

127. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Plac, i'w arddangos yn barhaol yn y Stiwt, i ddathlu 200 mlwyddiant ers Eisteddfod cyntaf Powys yn 1820, wedi ei wneud allan o unrhyw ddefnydd naturiol. Dim mwy na 30cm x 30cm mewn maint.

A plaque, to be exhibited permittely in the Stiwt, to celebrate 200 since the first ever Powys Eisteddfod in 1820, made out of any natural material. No more than 30cm x 30cm in size.

128. Oedran dros 19 oed / *Over 19 years*
Gwobrau/ *Prizes: £50; £30 ; £20*

Clustog i gael ei ddefnyddio ar gadair yr Eisteddfod i ddathlu 200 mlwyddiant yr Eisteddfod, ac sy'n dangos crefftwaith. Bydd enillydd y gadair hefyd yn cael cadw'r glustog buddugol.

A cushion to be used on the Eisteddfod chair to celebrate 200 years since the first Eisteddfod which shows craftsmanship. The winner of the chair will also be able to keep the cushion.

129. 11oed – 18oed/ *years*
Gwobrau/ *Prizes: £30; £20; £10*

Eitem i gadw pethau yn daclus yn eich ystafell wely.
An item to keep things tidy in your room.

130. Oedran Ysgol Gynradd/ *Primary School Age*
Gwobrau/ *Prizes: £20; £12; £8*

Amodau Arbennig ar gyfer Adran Celf a Chrefft

1. Rhaid i'r holl gynnyrch fod yn waith y cystadleuydd.
2. Dim eitemau i gael eu golchi na'u glanhau.
3. Rhaid i'r ffurflenni cystadlu fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft erbyn **Gorffennaf 1af**
4. Dylid dod â chynnyrch Crefftau, Tecstiliau, Celf, Crochenwaith, Ffotograffiaeth, Gwaith Graffeg (ar ffon gof neu gryno ddisg), Dylunio a Thechnoleg a Chrefftau i'r Eisteddfod nos Iau Gorffennaf 14eg rhwng 3.30 - 6 o'r gloch;

a chynnyrch Coginio, Diodydd a Gosod Blodau **rhwng 8.00 a 10.00 o'r gloch, Fore Gwener, Gorffennaf 15fed.**

5. Dylid cyflwyno amlen dan sêl ynghlwm wrth bob eitem, yn cynnwys :-

i) rhif y gystadleuaeth ii) enw'r gystadleuaeth

iii) ffugenw'r cystadleuydd

iv) enw a chyfeiriad y cystadleuydd

v) Blwyddyn ysgol (os yn gystadleuaeth oed ysgol)

Rhowch rif y gystadleuaeth, ffugenw a dosbarth ysgol (os yn berthnasol) yn unig ar glawr yr amlen.

6. Eiddo'r cystadleuydd fydd yr holl gynnyrch.

7. Rhoddir derbynneb am bob eitem a ddaw i law. Rhaid dangos y rhain pan gesglir yr eitemau o'r Arddangosfa rhwng **6.00 a 7.00 o'r gloch, Nos Sadwrn** Gorffennaf 16eg.

8. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i'r cynnyrch.

9. Mae barn y beirniad yn derfynol.

10. Gan ddibynnu ar y nifer o geisiadau, bydd y gwaith o ddethol y cynnyrch yn gyfrifoldeb y Pwyllgor, ond fe ddangosir yr holl gynnyrch buddugol.

11. Os oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn cystadlu ni chaniateir iddo/iddi stiwardio'r gystadleuaeth yn ystod y beirniadu.

Special Conditions for the Arts and Crafts Section

1. All exhibits must be the competitors own work.

2. No articles to be washed or cleaned.

3. Entry forms to be sent to the Secretary of the Arts and Craft Committee by ***July 1st.***

4. *Entries for the Crafts, Textiles, Art, Ceramics, Photography, Graphics (on memory stick or CD), Design and Technology and Crafts to be brought to the Eisteddfod on Thursday 16th July between 3.30 – 6pm; and entries for the Cookery and Flower Arranging to be brought to the* ***Eisteddfod between 8.00 and 10.00am, Friday 15th July.***

5. *A sealed envelope, attached to each item, should contain :-*
i) Competition number ii) Name of Competition
iii) Nom-de-plume iv) Name and address of the Competitor
v) School Year (if competition is for school aged child)
Print only the competition number, nom-de-plume and school class (if relevant) on the outside of the envelope

6. *All items remain the property of the competitor.*

7. *Receipts will be given for all the items received. These* ***must*** *be produced on collection of items from the Exhibition between* ***6.00 and 7.00pm, Saturday 16th July.***

8. *The Committee will not be held responsible for any loss or damage to entries.*

9. *The Judges' decision is final.*

10. *Depending on the number of entries, work exhibited will be at the discretion of the committee but all prize-winning entries will be displayed.*

11. *Any member of the committee has the right to compete but not to steward the competition during the judging.*

DYDDIADAU PWYSIG / IMPORTANT DATES 2020	
Mai 1af	Cyfansoddiadau Adran Llenyddiaeth a Llenyddiaeth y Dysgwyr ynghyd â Ffurflen Gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr yn yr Adran Gerdd i anfon eu henwau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd ynghyd â 2gopi o'r darnau ar gyfer y Beirniad a'r Cyfeilydd.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr i anfon copïau o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a'r cyweirnod i Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr i anfon copi o'r alaw werin i Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant.
Mehefin 1af	Cystadleuwyr yn yr Adran Llefaru i anfon eu henwau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru ynghyd ag 1 copi o'r darnau ar gyfer y Beirniad.
Gorffennaf 1af	Ffurflenni cystadlu fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft.
Gorffennaf 14eg	Cynnyrch Crefftau, Tecstiliau, Celf, Crochenwaith, Ffotograffiaeth, Gwaith Graffeg (ar ffon gof neu gryno ddisg), Dylunio a Thechnoleg a Chrefftau i'r Eisteddfod **rhwng 3.30 - 6 o'r gloch**;
Gorffennaf 15fed	Cynnyrch Coginio a Gosod Blodau i'r Eisteddfod **rhwng 8.00 a 10.00 o'r gloch y bore.**
Gorffennaf 15fed a 16eg	**Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys Rhosllannerchrugog a'r Cylch 2020 (2022)**
Gorffennaf 16eg	Cystadleuwyr i gasglu eitemau o'r Arddangosfa rhwng **6.00 a 7.00 o'r gloch, Nos Sadwrn Gorffennaf 16eg**

EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR
POWYS RHOSLLANNERCHRUGOG A'R CYLCH
Gorffennaf 15 – 16 2022

FFURFLEN GYSTADLU
AT YSGRIFENYDDION YR IS-BWYLLGORAU:

CYSTADLEUYDD/PARTI/CÔR: _____

FFUGENW (os yn gymwys): _____

ENW'R CYSWLLT: _____

CYFEIRIAD: _____

_____

RHIF FFÔN : _____

Rhif y Gystadleuaeth	Adran

Yr wyf/ydym yn ymrwymo i gydymffurfio a'r amodau arbennig a chyffredinol sydd yn y Rhestr Testunau.

Gellir llungopio copiau ychwanegol o'r ffurflen hon.
I'w dychwelyd i Ysgrifenyddion y Pwyllgorau / Adrannau
erbyn y dyddiadau priodol:
(Gweler Rhestr Swyddogion ar Dudalennau 8 a 9)
Gellir llungopïo'r ffurflen hon /*This form may be photocopied*

EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS
RHOSLLANNERCHRUGOG A'R CYLCH
Gorffennaf 15 – 16 2022
FFURFLEN GYSTADLU / ENTRY FORM

ADRAN CELF A CHREFFT / ARTS AND CRAFTS SECTION

Adran Section	Rhif y Gystadleuaeth Competition Number	Ffugenw Nom-de-Plume	Disgrifiad o'r eitem Item Description

ENW / NAME: _____

CYFEIRIAD / ADDRESS: _____

_____

RHIF FFÔN: _____

I'w dychwelyd erbyn Gorffennaf 1af 2022 i'r Pwyllgor Celf a Chrefft:
To be returned by 1st July 2022 to the Arts and Crafts Committee:

Adran Celf a Chrefft/Ffurflen Gofrestru

ar gyfer y gystadleuaeth, Llun ar blatfform Instagram YN UNIG

Art and Craft /Registration Form

for the competition, Photo using the platform Instagram ONLY

ENW/*NAME*:_____

ENW CYFRIF INSTAGRAM/ INSTAGRAM *PROFILE NAME*:

_____

*Cofiwch sicrhau bod eich cyfrif yn gyhoeddus yn ystod amser yr Eisteddfod, er mwyn i ni fedru ei weld i feirniadu.

Postiwch eich llun gyda'r hashtag #EisteddfodPowys2020 .

**Remember to make sure that your account is public during the time of the Eisteddfod, in order for us to view it to be judged.*

Post your picture using the hashtag #EisteddfodPowys2020 .

CYFEIRIAD/*ADDRESS:*_____

_____

RHIFCYSWLLT/*CONTACTNUMBER:*_____

EBOST/*EMAIL:*_____

CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Elusen Gofrestredig 502565

Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys 2020

CYFRANIAD ARIANNOL A NODDI GWOBRAU

Mae Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, gyda'i holl dradodiadau yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol i sicrhau llwyfannu gŵyl llwyddiannus sy'n adlewyrchu safonau ei gorffennol. Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Cymrodoriaeth Powys Rhosllannerchrugog a'r Cylch 2020 yn apelio am gyfraniadau a chefnogaeth hael i'r Ŵyl.

Gellir cyfrannu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol, neu noddi gwobrau cystadlaethau penodol neu un o brif seremonïau neu ddigwyddiadau'r Eisteddfod.

Dylid anfon eich cyfraniadau i'r Trysorydd. Rhestrir enwau cyfrannwyr ariannol o dros **£25** yn Rhaglen y Dydd. Derbynnir pob rhodd yn ddiolchgar.

Mae'r Gymrodoriaeth yn Elusen cofrestredig ac felly yn cael hawlio Rhodd Cymorth ar pob rhodd gan unigolion neu gwmnïau sy'n drethdalwyr yn y DU. Apeliwn felly am gyfranwyr sy'n drethdalwyr yn y DU i gwblhau'r ffurflen Rhodd Cymorth.

Sieciau yn daladwy i:

Eisteddfod Powys 2020

POWYS PROVINCIAL AND CHAIR EISTEDDFOD

Registered Charity 502565

Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys 2020

FINANCIAL CONTRIBUTIONS AND PRIZE SPONSORSHIP

The success of the Powys Provincial and Chair Eisteddfod, with all its traditions, demands adequate financial backing to ensure the staging of a festival worthy of its past. The Executive Committee of the *Cymrodoriaeth* Powys Eisteddfod Rhosllannerchrugog a'r Cylch is appealing for kind donations and generous support for this event. Contributions can be made directly to the general fund, to sponsoring specific competition prizes, to sponsorship of one of the main ceremonies or to any Eisteddfod related events. Donations should be passed to the Treasurer. The names of all financial contributors, donating in excess of **£25** will be printed in the Eisteddfod Programme. All donations will be gratefully received.

The 'Gymrodoriaeth' is a registered charity and is therefore entitled to claim Gift Aid on all donations from UK tax- paying companies or individuals. If

you are a UK tax payer please complete the relevant section on the donation form. All cheques should be made payable to:

Eisteddfod Powys 2020

CYFRANIAD / NAWDD I EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS RHOSLLANNERCHRUGOG A'R CYLCH 2020

CONTRIBUTION / SPONSORSHIP TO THE POWYS PROVINCIAL AND CHAIR EISTEDDFOD

EnwName.....

Cyfeiriad / Address.....

.....Côd Post/ Post Code.....

Dyddiad / Date .....

Amgaeaf siec / arian am y swm o £_____ yn rhodd i 'Eisteddfod Powys 2020

I enclose a cheque / cash for £_____as a donation to 'Eisteddfod Powys 2020

Nodwch os gwelwch yn dda os dymunir noddi adran neu gystadleuaeth arbennig.

Please note if you wish to sponsor a particular section or competition.

Rhodd i / Gift to: _____

Os dymunwch i'r Eisteddfod, trwy'r Gymrodoriaeth, fanteisio ar nawdd y Cynllun Rhodd Cymorth a fyddech mor garedig â llofnodi'r datganiad isod (*i'w ddileu fel sy'n briodol)	If you wish the Eisteddfod, through the Gymrodoriaeth, to benefit from the Gift Aid Scheme would you kindly sign the declaration below (*delete as necessary)
*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin fy rhodd fel Rhodd Cymorth.	*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat my donation as Gift Aid
*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin yr holl roddion a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn hyd oni ddywedaf yn wahanol fel Rhodd Cymorth. Rwyf yn nodi bod rheidrwydd arnaf dalu swm sydd o leiaf yn cyfateb i'r dreth sy'n cael ei dynnu gan yr Eisteddfod oddi wrth y rhodd yma (25c am bob £1 a roddwch ar hyn o bryd) **Arwyddwyd .....** **Dyddiad .....**	*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat all donations I make from the date of this declaration until I notify you otherwise as Gift Aid. I note that I must pay an amount of income tax at least equal to the tax that is reclaimed by the Eisteddfod on this donation (currently 25p for every £1 you give) **Signed .....** **Date .....**
Anfoner pob rhodd ynghyd â'r ffurflen hon i Drysorydd Eisteddfod y Gymrodoriaeth Rhosllannerchrugog a'r Cylch 2020	Please send all donations together with this form to the Treasurer: Eisteddfod y Gymrodoriaeth Rhosllannerchrugog a'r Cylch 2020